# Tîm Cymorth Gwarcheidwaid Arbennig

## Pwy ydyn ni?

Mae Tîm Cymorth Gwarcheidwaid Arbennig wedi ymrwymo i roi cymorth i Warcheidwaid Arbennig sy'n byw ym mwrdeistref Torfaen.

Mae ein gwasanaeth yn rhedeg am bum niwrnod yr wythnos o ddydd Llun i ddydd Iau 8.30am-5pm a dydd Gwener 8.30am-4.30pm. Rydyn ni wrth law ar bob adeg i roi cymorth ac arweiniad i bobl sydd wedi cael Gorchymyn Gwarcheidwad Arbennig ar gyfer plentyn yn eu gofal.

## Mwy am Ein Tîm

Mae'r tîm yn cynnwys dau Weithiwr Cymorth Cymunedol, sydd ag amrywiaeth o sgiliau a rhinweddau perthnasol i gefnogi Gwarcheidwaid Arbennig.

Mae yna Reolwr Tîm Cynorthwyol hefyd sy'n Weithiwr Cymdeithasol cymwys ac sydd â blynyddoedd lawer o brofiad o weithio gyda Thimau Plant a Theuluoedd.

Mae'r gwasanaethau cymorth yn cael eu goruchwylio gan Reolwr Tîm, y mae ei gefndir mewn gwasanaethau statudol i blant a theuluoedd, ac mae ganddo gyfrifoldeb ar y cyd â Rheolwr Tîm arall ar gyfer y Tîm Lleoliadau.

## Sut i Gael Mynediad i'r Tîm?

Gall Gwarcheidwad Arbennig hunangyfeirio at y tîm cymorth trwy gysylltu â'r tîm ar:

**Ffôn: 01495 766697 neu E-bost: SGOSupportTeam@torfaen.gov.uk**.

Gall Gwarcheidwad Arbennig hefyd gael ei atgyfeirio gan Weithiwr Cymdeithasol y plentyn/unigolyn ifanc a gellir trafod y cymorth sydd ei angen ar Warcheidwad Arbennig.

Mae Tîm Cymorth Gwarcheidwaid Arbennig yn wasanaeth hyblyg, a gall Gwarcheidwad Arbennig optio i mewn ac allan o'r gwasanaeth cymorth ar unrhyw adeg trwy gydol y cyfnod y mae Gorchymyn Gwarcheidwad Arbennig yn ei le.

## Pa gymorth ydyn ni'n ei ddarparu?

### Cymorth Gwaith Uniongyrchol

Mae’r tîm cymorth wrth law i roi cyngor a chymorth yn ystod oriau swyddfa. Gall y tîm gefnogi gyda sefyllfa neu ymholiad untro, neu helpu i ddarparu cymorth uniongyrchol trwy gyfnodau mwy anodd neu heriol. Gallai'r gefnogaeth hon fod wyneb yn wyneb, neu dros y ffôn.

### Dangos y ffordd at asiantaethau eraill

Gall y tîm cymorth hefyd ddangos y ffordd i Warcheidwad Arbennig at wasanaethau lleol eraill a allai helpu, er enghraifft, Cyngor am Fudd-daliadau, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg a chymorth sy'n gysylltiedig â thai.

### Cymorth Ariannol

Efallai y bydd gan Warcheidwad Arbennig hawl i gymorth ariannol, sy'n cael ei ystyried yn rhan o asesiad ariannol sy'n seiliedig ar brawf modd. Mae'r asesiad hwn yn cael ei adolygu'n flynyddol neu os yw sefyllfa ariannol Gwarcheidwad Arbennig yn newid. Bydd taliadau yn dod i ben unwaith y bydd y Gorchymyn Gwarcheidwad Arbennig yn dod i ben, pan fydd plentyn yn 18 oed, mae eu trefniadau gofal yn newid neu maent yn dechrau cyflogaeth lawn-amser. Yn ogystal â'r cymorth ariannol gan yr Awdurdod Lleol, gall Gwarcheidwad Arbennig hefyd wneud cais am fudd-daliadau plant ac efallai y bydd hawl ganddo i gredydau treth – gall Tîm Cymorth Gwarcheidwaid Arbennig gynorthwyo gyda hyn, os oes angen.

### Cymorth Amlasiantaeth

Gall y tîm cymorth gynorthwyo a chefnogi yn ystod cyfarfodydd aml-asiantaeth fel adolygiadau Gorchymyn Gwarcheidwad Arbennig / Adolygiadau Gorchmynion Goruchwylio a hefyd dod i gyswllt ag asiantaethau fel tai neu addysg.

### Cymorth Arall gyda Gofal Cymdeithasol

Gallai Gwarcheidwad Arbennig a'r plentyn/plant yn eu gofal hefyd elwa ar gymorth arall y mae'r Awdurdod Lleol yn ei gynnig i bob teulu yn Nhorfaen. Rhai enghreifftiau yw'r ***Tîm Ymateb Cyflym, Cymorth Ymyrraeth i'r Teulu*** a'r ***Tîm Adnoddau i Deuluoedd***. Byddai hyn yn cael ei asesu trwy Asesiad Gofal a Chymorth lle gall Gwarcheidwaid Arbennig wneud cais trwy'r ***Hwb Cymorth a Diogelu Amlasiantaeth (MASSH)***. Gall y tîm cymorth eich helpu i wneud atgyfeiriad; ond y Tîm penodol hwnnw sy'n penderfynu a fydd yn cynnig unrhyw gymorth.

### Cymorth gyda Chyswllt/Teulu Biolegol

Gellir cynnig cyngor, cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer materion sy'n ymwneud â'r berthynas gyda'r teulu biolegol a / neu faterion gydag amser teulu.

Gall yr Awdurdod Lleol gynnig Cynhadledd Grŵp Teulu, y gellir ei hwyluso drwy'r **Tîm Adnoddau i Deuluoedd,** i Warcheidwad Arbennig sy'n cael anawsterau gyda'r berthynas gyda'r teulu biolegol ac amser teulu.

### Hyfforddiant

Anogir pob Gwarcheidwad Arbennig i gael hyfforddiant ar-lein y gall gael mynediad iddo trwy ***Dîm Datblygu Sefydliadol*** yr Awdurdod Lleol. Gall y tîm helpu i drefnu hyn a chael lle i chi ar raglenni hyfforddiant perthnasol.

Gall Gwarcheidwad Arbennig hefyd gael mynediad at hyfforddiant a ddarperir gan Fy Nhîm Cefnogol (MyST) (tîm cymorth therapiwtig) a'r Rhwydwaith Maethu.

### Cymorth Therapiwtig

Mae gan y tîm cymorth fynediad hefyd at y Tîm Seicoleg Cymunedol, Panel Llesiant SPACE a llinell Gyngor Seicoleg.

### Grŵp Cymorth a Chymorth Cymheiriaid

Ar hyn o bryd mae grŵp cymorth rhithwir misol i bob gwarcheidwad arbennig. Gall y tîm cymorth hefyd roi'r gwarcheidwad arbennig mewn cysylltiad â gwarcheidwaid arbennig eraill am gymorth amhrisiadwy gan gymheiriaid.

### Cymorth wrth Adael Gofal

Er nad yw unigolyn ifanc mewn trefniant gwarcheidiaeth arbennig yn gymwys i fynd i mewn i drefniadau byw ôl-18 o dan y cynllun "Pan Fydda i'n Barod", hyd yn oed os yw'n byw gyda'r cyn-rieni maeth cyn gwneud gorchymyn gwarcheidiaeth arbennig; mae'r tîm cymorth yn gweithio'n agos gyda Gwasanaeth Cymorth i Bobl Ifanc Torfaen, a allai gynnig rhywfaint o gymorth i rai plant sydd wedi bod yn destun Gorchymyn Gwarcheidiaeth Arbennig. Byddai'r cymorth hwn yn amodol ar asesiad pellach, a byddai'n benderfyniad i'r Gwasanaeth os yw'n darparu unrhyw gymorth parhaus unwaith y bydd plentyn yn 18 oed.

### Cyngor Cyfreithiol

Os bydd rhieni biolegol yn herio'r Gorchymyn Gwarcheidwad Arbennig neu'r trefniadau amser teulu trwy broses y llysoedd, bydd yr Awdurdod Lleol yn helpu i dalu costau cyfreithiol (hyd at y gyfradd cymorth cyfreithiol). Os bydd Gwarcheidwad Arbennig yn dymuno dirymu'r Gorchymyn Gwarcheidwad Arbennig yna bydd gofyn iddynt dalu'r gost gyfreithiol am wneud hynny.

### Cymorth Tu Allan i Oriau Arferol

Gall pob Gwarcheidwad Arbennig gael mynediad at wasanaeth cymorth dros y ffôn y ***Tîm Lleoliadau*** tu allan i oriau arferol, mewn argyfwng, a bydd y Gweithiwr Cymdeithasol sydd ar ddyletswydd yn gallu cynnig y cyngor/cymorth mwyaf priodol dros y ffôn.